# Llywio Datblygiad Strategaeth Dementia 2026-2036 – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Gwybodaeth bersonol

| **Cyfrinachedd** |
|---|
| Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgyngoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.<br><br>**Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch yma:** ☐ |

| |
|---|
| Eich enw<br><br>Hywel Iorwerth |
| Eich sefydliad (os yw'n berthnasol)<br><br>Comisiynydd y Gymraeg |
| Eich diddordeb yn y strategaeth (profiad bywyd, gofalwr di-dâl / teuluol, aelod o'r cyhoedd, staff gofal iechyd, staff gofal cymdeithasol, staff y trydydd sector, rôl broffesiynol arall, ymateb ar ran sefydliad, gwell gen i beidio â dweud).<br><br>**Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**<br><br>Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Mesur yn nodi y gall Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau gynnig cyngor a/neu sylwadau i unrhyw berson. Yn y cyd-destun hwnnw, ac yn unol â rôl y Comisiynydd fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg, rydym yn darparu'r sylwadau isod ynghylch Strategaeth drafft dementia 2026-2036. |
| Manylion cyswllt/cyfeiriad e-bost<br>hywel.iorwerth@cyg-wlc.cymru |
| Pa fersiwn o'r ddogfen ymgynghori rydych chi wedi edrych arni? **Ticiwch bob un sy'n berthnasol.** (Strategaeth Dementia Ddrafft, BSL, Hawdd ei Ddeall)<br>Strategaeth Dementia Ddrafft |
| |

## Cwestiwn 1

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y datganiad canlynol yn nodi gweledigaeth gyffredinol sy'n gywir i Gymru?**

*Bydd Cymru yn genedl lle mae pobl sy'n byw gyda dementia yn cael eu parchu a'u cefnogi, ac yn cael eu grymuso i fyw'n annibynnol ag urddas yn eu cymunedau. Rydym am weld cymdeithas lle nad yw stigma yn cael ei dderbyn a lle mae mwy o ymwybyddiaeth o ddementia, a fydd yn helpu pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd i fyw a chymdeithasu mewn cymunedau cynhwysol a thosturiol. Bydd hyn yn grymuso pobl i fyw'n annibynnol ag urddas yn eu cymunedau drwy ddiagnosis, gofal a thriniaeth. I gyflawni'r weledigaeth hon, rhaid wrth ymdrech unedig, drawslywodraethol ac amlasiantaeth, wedi'i seilio ar leisiau a phrofiadau'r rhai sy'n byw gyda dementia. Gyda'n gilydd, byddwn yn creu dyfodol lle mae hawliau'n cael eu cynnal, lle mae cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a lle nad oes neb yn wynebu dementia ar ei ben ei hun.*

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

## Cwestiwn 1.a

**Esboniwch y rhesymau dros eich ateb i Gwestiwn 1.**

Credwn y dylid cyfeirio at y ffaith bod Cymru yn wlad ddwyieithog. Er enghraifft, gellid cyfeirio at Gymru fel 'cenedl ddwyieithog lle mae pobl sy'n byw gyda dementia, boed hwy yn siaradwyr Cymraeg neu Saesneg, yn cael eu parchu a'u cefnogi, ac yn cael eu grymuso i fyw'n annibynnol ag urddas yn eu cymunedau'.

## Cwestiwn 2

**2a) Beth yw'r un newid pwysicaf rydych chi am ei weld i bobl sy'n byw gyda dementia yn y deng mlynedd nesaf?**

Rydym yn dymuno gweld gwelliant sylweddol mewn gwasanaethau dementia drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen i siaradwyr Cymraeg allu derbyn gwasanaethau dementia o safon drwy gyfrwng y Gymraeg ble bynnag maent yn byw. Ar hyn o bryd mae diffyg gwasanaethau dementia drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael effaith sylweddol ac andwyol ar siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd.

Mae'r dystiolaeth o'r gwerthusiad o'r cynllun gweithredu dementia diwethaf a'r dystiolaeth ehangach mae'r is-grŵp dementia a'r Gymraeg wedi ei chasglu yn

amlygu mai prin fu'r cynnydd o safbwynt gofal dementia drwy gyfrwng y Gymraeg dros gyfnod y cynllun gweithredu ar gyfer dementia blaenorol.

Mae angen i'r strategaeth dementia newydd adlewyrchu'r diffyg cynnydd hwn, drwy gynnig camau breision fydd yn cael eu gweithredu yn ystod cyfnod y strategaeth i unioni'r diffyg cynnydd hwn. Rhaid i gynnig gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn flaenoriaeth yn y strategaeth newydd.

**2b) I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y strategaeth yn ceisio cyflawni'r newid hwnnw?**

Rydym yn credu bod y strategaeth â'r bwriad o gyflawni'r newid hwn ac rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gymraeg yn cael sylw amlwg yn y strategaeth drafft. Er hynny, ac fel rydym yn ymhelaethu arno yn ein hymatebion i'r cwestiynau dilynol, mae dau brif fater y dylid eu hystyried ymhellach er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol:

1) **Mae angen i'r Gymraeg gael sylw mwy amlwg a phenodol yn yr adran sy'n trafod yr egwyddorion sydd i'w hystyried ar draws y strategaeth:** Gweler ein hymateb i gwestiwn 3.a.
2) **Wrth i'r Llywodraeth ddatblygu strategaeth fwy manwl rhaid cynnwys pwyntiau gweithredu ac ymrwymiadau penodol o safbwynt y Gymraeg:** Deallwn mai bwriad yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfle cynnar i bobl ymgysylltu â chynnwys a'r themâu fydd yn cael eu cynnwys yn y strategaeth derfynol. Rydym felly yn disgwyl y bydd y strategaeth derfynol yn fwy manwl ac yn cynnwys ymrwymiadau a phwyntiau gweithredu penodol ynghylch sut bydd y Llywodraeth yn cyflawni'r weledigaeth. Wrth i'r Llywodraeth ddatblygu'r strategaeth fanylach derfynol credwn ei bod yn angenrheidiol cynnwys ymrwymiadau a phwyntiau gweithredu penodol ynghylch gwella gwasanaethau dementia cyfrwng Cymraeg. Fel rydym yn ei amlinellu yn ein hymatebion i weddill cwestiynau'r ymgynghoriad hwn, mae angen ystyried y Gymraeg fel rhan greiddiol o bob un o'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys.

## Cwestiwn 3

**Rydym wedi nodi egwyddorion sydd, yn ein barn ni, yn sylfeini ar gyfer y Strategaeth Dementia newydd, sef:**

- Canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Dull sy'n seiliedig ar hawliau.
- Cydgynhyrchu.
- Mynediad, profiad a chanlyniadau cyfartal heb stigma a gwahaniaethu.
- Cydnabod croestoriadedd.

- Diagnosis amserol a chywir.
- Gweithredu dull ataliol drwy ganolbwyntio ar iechyd yr ymennydd.
- Gwasanaethau integredig a chydgysylltiedig.
- Darparu cymorth i ofalwyr di-dâl a theuluoedd.
- Datblygu ein gweithlu.
- Cefnogi ymchwil ac arloesi.

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai'r egwyddorion hyn yw'r rhai cywir?

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

## Cwestiwn 3.a

**Esboniwch y rhesymau dros eich ateb i Gwestiwn 3. Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw egwyddorion ar goll, cynhwyswch nhw yma.**

Nid ydym yn anghytuno â'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys, ond credwn y dylai'r egwyddorion gynnwys darparu gwasanaethau dwyieithog. Er y gellir dadlau bod darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn gysylltiedig â nifer o'r egwyddorion, nid yw'r Gymraeg yn cael ei chrybwyll yn yr adran hon. Rydym yn argymell y dylid felly gynnwys egwyddor ychwanegol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau dementia drwy gyfrwng y Gymraeg, ac hefyd cyfeirio at bwysigrwydd materion fel datblygu asesiadau cyfrwng Cymraeg a datblygu gweithlu dwyieithog.

Fel y gwyddoch, mae darparu gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig mewn meysydd allweddol fel dementia, yn flaenoriaeth polisi i Lywodraeth Cymru. Credwn felly y dylai'r strategaeth gyfeirio yn benodol at yr egwyddor bod gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i dderbyn gwasanaethau dementia drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod hyn yn fater o angen ac yn hanfodol er mwyn parchu a sicrhau urddas yr unigolyn.

Yng nghwestiynau 4 i 10, rydym wedi rhestru'r meysydd allweddol hyn ac wedi gadael lle i chi fynegi eich barn am bob un.

## Cwestiwn 4

**Mae Adran A yn amlinellu'r meysydd y byddwn yn eu hystyried o dan 'lleihau risg ac atal dementia'.**

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr adran hon yn nodi'r meysydd priodol i'w hystyried ar gyfer y thema allweddol hon?**

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|

| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn 4a

**Esboniwch y rhesymau dros eich ateb i Gwestiwn 4.**

Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr adran hon yn cyfeirio at siaradwyr Cymraeg yn benodol, a phwysigrwydd y gymuned Gymraeg yng nghyd-destun helpu unigolion i aros yn gymdeithasol.

## Cwestiwn 4b

**A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn yr adran hon yn eich barn chi?**

Wrth i'r Llywodraeth ddatblygu'r strategaeth fanylach, byddem yn eich annog i ystyried ymhellach sut gellid ymgysylltu yn benodol â siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith wrth geisio annog ffyrdd iach o fyw ac atal dementia. Gall hyn gynnwys datblygu ymyraethau penodol i dargedu siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd gwahanol, annog elusennau a mudiadau sy'n gweithio yn y maes i ddarparu gwasanaethau Cymraeg; ac ystyried pa fath o elusennau a mudiadau sydd eisoes yn dueddol o wasanaethu siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith fyddai'n gallu cyfrannu at ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

## Cwestiwn 5

**Mae Adran B yn amlinellu'r meysydd y byddwn yn eu hystyried o dan 'codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia'.**

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr adran hon yn amlinellu'r meysydd y dylem eu hystyried ar gyfer y thema allweddol hon?**

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

## Cwestiwn 5a

**Esboniwch y rhesymau dros eich ateb i Gwestiwn 4.**

Rydym yn croesawu'n fawr fod yr adran hon yn nodi'n glir ymrwymiad y Llywodraeth i deilwra negeseuon iechyd cyhoeddus i wahanol gynulleidfaoedd ac i ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg.

Yng nghyd-destun cysyniad presgripsiynau cymdeithasol rydym yn cytuno'n llwyr fod angen ystyried yn benodol pa asedau cymunedol sy'n debygol o gyrraedd, cefnogi a chynyddu ymwybyddiaeth siaradwyr Cymraeg.

## Cwestiwn 5b

**Os oes grwpiau poblogaeth eraill rydych chi'n teimlo eu bod mewn mwy o berygl o ddementia ac y dylid tynnu sylw atynt yma, cynhwyswch y rhain isod.**

Er nad oes tystiolaeth bod siaradwyr Cymraeg mewn mwy o berygl o ddementia, mae tystiolaeth bod siaradwyr Cymraeg yn tueddu i gael diagnosis yn hwyrach mewn bywyd. Er nad yw'r rhesymau dros hyn yn hollol glir, dylid ystyried a yw diffyg ymwybyddiaeth, neu ffactorau fel bod llawer o siaradwyr Cymraeg yn byw mewn ardaloedd gwledig a mwy ynysig, yn rhan o'r rheswm dros hyn.

## Cwestiwn 5c

**A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn yr adran hon yn eich barn chi?**

Byddem yn eich annog i gynnwys pwyntiau gweithredu mwy penodol er mwyn adnabod yr asedau cymunedol hyn a sut mae modd teilwra negeseuon iechyd cyhoeddus a thargedu siaradwyr Cymraeg yn benodol.

Dylid sicrhau bod gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn ystyried yn benodol sut i gyrraedd a diwallu anghenion cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg, a dylid eu datblygu mewn perthynas â mudiadau ac elusennau sydd eisoes yn gweithredu yn ddwyieithog ac â phrofiad o ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg.

Fel rhan o hyn dylid sicrhau bod unrhyw ddeunydd cynyddu ymwybyddiaeth sy'n cael ei ddatblygu neu ei ddefnyddio ar gael yn ddiofyn yn Gymraeg.

## Cwestiwn 6

**Mae Adran C yn amlinellu'r meysydd y byddwn yn eu hystyried o dan 'Gwella diagnosis, triniaeth, gofal a chymorth dementia'.**

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr adran hon yn amlinellu'r meysydd y dylem eu hystyried ar gyfer y thema allweddol hon?**

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

## Cwestiwn 6a

**Esboniwch y rhesymau dros eich ateb i Gwestiwn 6.**

Rydym yn cytuno bod yr adran hon yn amlinellu nifer o feysydd pwysig y dylid eu hystyried, ac mae hyn yn cynnwys ystyriaethau ynghylch y Gymraeg. Er hyn mae'r ddogfen fel mae'n sefyll yn rhoi amlinelliad cyffredinol o'r hyn y bydd y strategaeth yn

gobeithio ei gyflawni, ac nid yw'n cynnig fawr ddim manylder ynghylch sut bydd hyn yn digwydd. Er enghraifft, rydym yn cytuno yn llwyr fod angen datblygu a dilysu asesiadau diagnostig yn y Gymraeg er mwyn sicrhau gwasanaeth teg ac o ansawdd, ond ein prif ddiddordeb ni yw sut bydd y strategaeth newydd yn sicrhau bod hyn yn digwydd. Yn yr un modd, mae'r adran ar y Gymraeg yn cyfeirio at bwysigrwydd darparu gwasanaethau dementia drwy gyfrwng y Gymraeg, ond does dim manylder yma am sut bydd hyn yn cael ei gyflawni, beth yw'r pwyntiau gweithredu penodol, a phwy fydd yn gyfrifol am gyflawni hyn mewn adrannau gwahanol o'r gwasanaeth iechyd.

**Cwestiwn 6b. Isod mae rhestr o'r pynciau allweddol yn y maes hwn. Rhowch wybod inni os ydych chi'n meddwl bod angen mwy o wybodaeth ar gyfer unrhyw un o'r rhain**

Fel y gwyddoch, mae is-grŵp dementia a'r Gymraeg eisoes wedi darparu cyngor manwl iawn ynghylch y blaenoriaethau sydd angen i'r strategaeth newydd ganolbwyntio arnynt o ran darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r strategaeth ar ei ffurf bresennol yn mynd llawer pellach nag ail-adrodd pwysigrwydd darparu gwasanaethau dementia drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ein barn ni mae angen i'r strategaeth yn ei ffurf derfynol ymateb i gyngor yr is-grŵp dementia gan gynnig pwyntiau gweithredu penodol sydd am arwain at wella profiadau siaradwyr Cymraeg sydd yn byw â dementia.

Mae felly angen mwy o wybodaeth, pwyntiau gweithredu manwl mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

**Cofnodi dewis ac anghenion iaith unigolion**

- Mae angen sicrhau bod dewis/anghenion iaith unigolyn sy'n byw â dementia yn cael eu cofnodi yn effeithiol, bod hyn yn cael ei rannu yn effeithiol rhwng gwasanaethau iechyd a gofal, a bod y wybodaeth hon yn sail ar gyfer cynllunio llwybrau gofal unigolion.

**Casglu gwybodaeth am allu ieithyddol staff**

- Er bod gwaith sylweddol eisoes yn digwydd ar hyn yn sgil cynllun Mwy na Geiriau (MNG), gofynion safonau'r Gymraeg, a gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru, mae angen gyrru a blaenoriaethu'r gwaith hwn o gofnodi sgiliau iaith y gweithlu o fewn meysydd blaenoriaeth fel dementia.

**Cefnogi diagnosis dementia**

- Mae angen gwaith ymchwil pellach ar ddatblygu a dilysu asesiadau yn y Gymraeg, ac mae angen penodi arweinydd clinigol gyda phrofiad ymchwil i arwain y gwaith hwn o dan gefnogaeth y Llywodraeth.
- Mae angen rhannu arfer da ac adnoddau mewn perthynas ag asesu a diagnosis. Fel rhan o hyn mae angen datblygu canllawiau clir, adnoddau, a hyfforddiant i'r gweithlu.

**Darparu gwybodaeth, cyngor ac eglurder ynghylch llwybrau gofal a chefnogaeth yn y Gymraeg**

- Mae angen datblygu gwell prosesau o rannu gwybodaeth gyfredol â siaradwyr Cymraeg ynghylch y math o wasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael yn lleol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae angen i siaradwyr Cymraeg sy'n byw â dementia a'u teuluoedd gael gwybodaeth glir a hygyrch ynghylch hyd a lled y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn gwasanaethau gofal. Dylid cynnwys pwyntiau gweithredu ac ymrwymiadau penodol er mwyn sicrhau bod modd i unigolion a theuluoedd ddewis llwybrau gofal ar sail gwybodaeth ddilys a dibynadwy am iaith y gwasanaeth.

**Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau dylid gwella prosesau arolygu a sicrhau ansawdd**

- Fe ddylai'r Gymraeg fod yn elfen ganolog o brosesau arolygu a sicrhau ansawdd. Mae angen mwy o bwyslais ar y ffaith bod diffyg gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfystyr â gofal gwael a allai effeithio'n andwyol ar lesiant unigolion.

**Yr angen i wella a datblygu llwybrau gofal cyfrwng Cymraeg ym maes gofal dementia**

- Mae angen sicrhau gwelliant sylweddol yn y graddau mae siaradwyr Cymraeg yn gallu derbyn llwybrau gofal cyfrwng Cymraeg - mae hyn yn cynnwys pob elfen o brofiad unigolyn sy'n byw â dementia, a hefyd anghenion gofalwyr di-dâl.
- Mae angen i'r strategaeth derfynol gynnig mecanweithiau ar gyfer gwella llwybrau gofal cyfrwng Cymraeg. Gall hyn olygu blaenoriaethu a darparu mwy o adnoddau i weithredu rhai o ymrwymiadau pwysicaf cynllun MNG, ystyried perthnasedd chynlluniau byrddau iechyd yn unol â safon 110, a hefyd brosesau comisiynu gwasanaethau gofal.
- Fel rhan o hyn dylid rhoi sylw penodol i bwysigrwydd diwylliant a hunaniaeth, gan gydnabod bod anghenion siaradwyr Cymraeg yn fwy na mater o iaith y gwasanaeth. Mae angen sicrhau profiadau diwylliannol addas sy'n dangos parch i hunaniaeth siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn rhywbeth y gellid ac y dylid ei gyflawni yn y tymor byr.

Y tu hwnt i'r materion uchod, dylid nodi bod y darn ar 'Y Gymraeg' yn adran C yn gamarweiniol. Er bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol a bod gan bobl hawl i ddefnyddio'r Gymraeg, nid yw'n gywir bod y Mesur yn rhoi hawl i wasanaethau iechyd a gofal cyfrwng Cymraeg. Mae cyfundrefn safonau'r Gymraeg yn rhoi hawl i rai mathau o wasanaethau yn y Gymraeg megis gohebiaeth, cyhoeddiadau, gwefan, ateb o ffon, derbynfeydd, arwyddion, ystyried y Gymraeg mewn penderfyniadau polisi, datblygu'r gweithlu ac yn y blaen. Er bod safon 110 yn ymwneud â chynllunio i wella capasiti

byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau clinigol yn Gymraeg, nid yw'n gosod unrhyw hawl absoliwt i wasanaethau clinigol cyfrwng Cymraeg. Cynllun MNG Llywodraeth Cymru sydd yn canolbwyntio yn bennaf ar sicrhau gwasanaethau clinigol cyfrwng Cymraeg. Rydym o'r farn bod y strategaeth arfaethedig yn gwbl allweddol i er mwyn gwella profiadau siaradwyr Cymraeg sy'n byw â dementia a sicrhau bod gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i'r un ansawdd lle bynnag bo pobl yn byw.

## Cwestiwn 6c

**A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn yr adran hon yn eich barn chi?**

Gweler ein hymateb i gwestiwn 6b uchod.

## Cwestiwn 7

**Mae Adran D yn amlinellu'r meysydd y byddwn yn eu hystyried o dan 'cefnogi gofalwyr di-dâl pobl sy'n byw gyda dementia'.**

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr adran hon yn amlinellu'r meysydd y dylem eu hystyried ar gyfer y thema allweddol hon?**

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

## Cwestiwn 7a

**Esboniwch y rhesymau dros eich ateb i Gwestiwn 7**

## Cwestiwn 7b

**A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn yr adran hon yn eich barn chi?**

Mae angen sicrhau bod cefnogaeth i ofalwyr di-dâl ar gael yn Gymraeg ac yn ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg. I nifer sylweddol o bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr, Cymraeg yw eu hiaith gyntaf a'r iaith maen nhw yn defnyddio yn naturiol i gyfathrebu.

## Cwestiwn 8

**Mae Adran E yn amlinellu'r meysydd y byddwn yn eu hystyried o dan 'cefnogi'r gweithlu'.**

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr adran hon yn amlinellu'r meysydd y dylem eu hystyried ar gyfer y thema allweddol hon?**

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|

☐ ☒ ☐ ☐ ☐

## Cwestiwn 8a

**Esboniwch y rhesymau dros eich ateb i Gwestiwn 8**

Er bod yr adran hon yn cyfeirio at y ffaith bod safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau i ddarparu cyrsiau hyfforddiant iaith ar gyfer staff er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, mae llawer mwy o faterion y dylid eu hystyried yma fel yr amlinellwn isod

## Cwestiwn 8b

**A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn yr adran hon yn eich barn chi?**

Fel gwnaeth is-grŵp dementia a'r Gymraeg nodi, mae datblygu capasiti'r gweithlu iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwbl allweddol.

Mae angen cynlluniau clir ac uchelgeisiol i gynyddu capasiti'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau dementia drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn gofyn ystyried ystod eang o faterion er enghraifft:

- cofnodi sgiliau gwaith y gweithlu
- ymwybyddiaeth iaith
- recriwtio strategol ac mwy o bwyslais ar adnabod swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol
- cynllunio'n strategol er mwyn gwneud defnydd effeithiol o sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol
- hyfforddiant ieithyddol
- datblygu llwybrau addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Mae gan safonau'r Gymraeg rôl allweddol yn y cyd-destun uchod. Mae'r safonau'n cynnwys gofyniad i feithrin sgiliau yn y Gymraeg trwy gynllunio a hyfforddi gweithluoedd, gan asesu'r angen am sgiliau iaith wrth hysbysebu swyddi, darparu cyfleoedd i staff gael gwersi Cymraeg a chadw cofnod o'u sgiliau.

Mae safon 110 yn benodol yn gofyn i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG gyflwyno cynllun 5 mlynedd i gynyddu eu capasiti i allu cynnig gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cydweithio agos sy'n digwydd rhwng swyddfa'r Comisiynydd a thîm Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru yn allweddol yn y cyd-destun hwn. Mae cynyddu capasiti'r sector i gynnig gwasanaethau dementia cyfrwng Cymraeg wedi ei adnabod fel blaenoriaeth o fewn cynlluniau safon 110 byrddau iechyd ac hefyd yn flaenoriaeth i gynllun MNG Llywodraeth Cymru.

Mae angen i'r strategaeth dementia terfynol felly gefnogi ac ategu gweithrediad y cynlluniau hyn ac ystyried rôl allweddol sefydliadau amrywiol, gan gynnwys

Comisiynydd y Gymraeg, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Medr.

## Cwestiwn 9

**Mae Adran F yn amlinellu'r meysydd y byddwn yn eu hystyried o dan 'ymchwil ac arloesi ym maes dementia'.**

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr adran hon yn amlinellu'r meysydd y dylem eu hystyried ar gyfer y thema allweddol hon?**

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

## Cwestiwn 9a

**Esboniwch y rhesymau dros eich ateb i Gwestiwn 9.**

Fel rydym wedi ei nodi yn ein hymateb i gwestiwn 6.b. , mae angen ymchwil penodol yn ymwneud ag asesiadau a diagnosis drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae diffyg dealltwriaeth ar hyn o bryd ynghylch effaith dwyieithrwydd (yn yr achos hwn Cymraeg a Saesneg) ar ymatebion i dasgau gwybyddol. Mae hyn hefyd yn cynnwys asesiadau sydd yn profi anawsterau lleferydd ac sydd felly yn seiliedig ar brofion llafar. Mae hyn yn golygu nad oes digon o ddealltwriaeth gennym ynghylch canlyniadau normadol sampl iach o unigolion dwyieithog er mwyn sicrhau bod asesiadau sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg gyda'r pobl dwyieithog sy'n byw â dementia yn ddilys a dibynadwy.

Mae angen ymchwil i ddeall sut mae newid yn atebion o fewn un iaith yn gallu bod yn arwydd o anawsterau sydd yn gysylltiedig â rhai mathau o ddementia. Yn dilyn casglu data gyda thrigolion dwyieithog heb ddiagnosis o dementia, fe fydd angen datblygu profion gwybyddol sydd yn addas i ddiwylliant a natur dwyieithog trigolion yng Nghymru.

## Cwestiwn 9b

**A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn yr adran hon yn eich barn chi?**

## Cwestiwn 10

**Mae Adran G yn amlinellu'r meysydd y byddwn yn eu hystyried o dan 'Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd addas er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflawni'.**

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr adran hon yn amlinellu'r meysydd y dylem eu hystyried ar gyfer y maes allweddol hwn?**

| Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

## Cwestiwn 10a

**Esboniwch y rhesymau dros eich ateb i Gwestiwn 10**

Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at ddyfodol is-grŵp y Gymraeg a dementia, ac nid yw'n glir beth yn union fydd y trefniadau monitro ac atebolrwydd o safbwynt gwella gwasanaethau dementia cyfrwng Cymraeg yn benodol.

Mae'n anodd rhoi sylwadau ystyrlon ynghylch trefniadau monitro ac atebolrwydd heb ddeall yn llawn beth fydd natur a chynnwys y strategaeth derfynol ac a fydd cynlluniau cyflawni penodol yn cael eu llunio ochr yn ochr â'r strategaeth, neu yn dilyn cyhoeddi'r strategaeth.

Yn gyffredinol fodd bynnag, byddem yn pwysleisio bod angen i'r Gymraeg gael ei hystyried fel cyfrifoldeb i'r Bwrdd Gweinidogol Cenedlaethol ar Ddementia, i'r Bwrdd Cynghori ar Ddementia, ac yn bwysicach oll i'r trefniadau arweinyddiaeth a gweithredu strategol ar lefel ranbarthol.

Nid yw hyn yn golygu nad oes lle i gael is-grŵp dementia a'r Gymraeg sydd yn craffu ar weithrediad elfennau penodol o'r strategaeth, ond mae'n hanfodol nad yw materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu gosod i'r ochr. Mae'n hanfodol bod yr unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau dementia ar hyd a lled Cymru yn atebol am gyflawni pwyntiau gweithredu ac ymrwymiadau pendant fydd wedi'u gosod yn y strategaeth derfynol ynghylch gwella gwasanaethau dementia drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y cyd-destun uchod ym mis Mehefin 2025 cyhoeddodd y Comisiynydd ddogfen maniffesto ar gyfer etholiad Senedd Cymru yn 2026. Un o'r gofynion oedd wedi cynnwys yn y ddogfen maniffesto oedd bod angen ariannu adran o swyddogion arweiniol arbenigol ym meysydd blaenoriaeth MNG a meysydd blaenoriaeth adnabuwyd gan y byrddau iechyd yn eu cynlluniau 5-mlynedd. Rydym felly o'r farn bod angen penodi arweinydd Cymraeg a dementia fyddai'n arwain y gwaith o weithredu'r strategaeth derfynol mewn perthynas â'r Gymraeg.

**Cwestiwn 10b Wrth adrodd ar gynnydd yn erbyn y strategaeth, pa ddulliau cyfathrebu fyddai'n ddefnyddiol er mwyn i chi allu cadw golwg ar gynnydd? Dewiswch y tri adnodd mwyaf defnyddiol:**

| | |
|---|---|
| Diweddariad ysgrifenedig blynyddol | ie |
| Cylchlythyr bob 6 mis | ie |
| Diweddariadau cryno, hawdd eu deall. | |
| Diweddariadau ar ffurf fideo | |

| | |
|---|---|
| Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog | |
| Datganiad llafar gan y Gweinidog | ie |
| Rhywbeth arall (manylwch) | |

## Cwestiwn 10c

**A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn yr adran hon yn eich barn chi?**

## Y Strategaeth Gyffredinol

### Cwestiwn 11

**Yn y ddogfen ymgynghori hon, rydym yn nodi'r hyn yr ydym am ei gyflawni. Bydd y strategaeth lawn a'r cynlluniau cyflawni ategol yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â sut.**
**A oes unrhyw feysydd allweddol yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn y ffordd y byddwn yn cyflawni'r newidiadau hyn?**

| | |
|---|---|
| Adran A: Lleihau risg ac atal dementia. | |
| Adran B: Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia. | |
| Adran C: Gwella diagnosis, triniaeth, gofal a chymorth dementia. | |
| Adran D: Cefnogi gofalwyr di-dâl pobl sy'n byw gyda dementia. | |
| Adran E: Cefnogi'r gweithlu. | |
| Adran F: Cefnogi ymchwil ac arloesi ym maes dementia. | |
| Adran G: Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd addas er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflawni. | |
| Meysydd eraill nad ydynt wedi'u cynnwys mewn mannau eraill. | |

### Cwestiwn 12

**Bydd gan y strategaeth newydd nifer o dargedau mesuradwy a fydd yn dangos faint o gynnydd sydd wedi'i wneud. Ym mha feysydd y byddech chi'n canolbwyntio ar ddatblygu'r targedau hyn?**

Credwn ei bod yn hanfodol cynnwys dangosyddion perthnasol ynghylch gwasanaethau dementia drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwyddom fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gwneud gwaith sylweddol mewn perthynas â data a dangosyddion fydd yn dangos cynnydd yn erbyn pwyntiau gweithredu MNG. Fe ddylid ystyried casgliadau'r gwaith hwn wrth lunio dangosyddion ar gyfer y strategaeth derfynol.

## Cwestiwn 13

**Rydym wedi paratoi asesiadau effaith i ddangos sut y gallai'r strategaeth effeithio ar Gymru a'i phobl, gan ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol. A oes unrhyw effeithiau neu ystyriaethau sydd ar goll o'r asesiadau hyn yn eich barn chi? A oes unrhyw beth yn benodol y byddech chi am iddo gael ei gynnwys mewn asesiad effaith integredig?**

## Cwestiwn 14

**Hoffem eich barn ar sut gallai'r strategaeth effeithio ar y Gymraeg. Sut gallai'r strategaeth roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Sut gallai hi sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn deg ac yn gyfartal ochr yn ochr â'r Saesneg?**

*Gweler ein hymateb i weddill cwestiynau'r ymgynghoriad hwn.*

Rydym yn deall mai'r bwriad yn yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfle cynnar i bobl ddatgan barn ynghylch rhai o'r prif themâu fydd yn cael eu cynnwys yn y strategaeth derfynol. Rydym yn cymryd felly fod bwriad eisoes i ddatblygu strategaeth fanylach fydd yn cynnwys pwyntiau gweithredu mwy manwl, ymrwymiadau mwy pendant, a fydd yn gosod cyfrifoldebau clir o safbwynt gweithredu. Rydym hefyd yn deall y posibilrwydd y bydd cynlluniau cyflawni ategol yn cael eu llunio.

Yn y cyd-destun uchod byddem yn eich annog i ystyried cyngor is-grŵp dementia a'r Gymraeg yn ofalus, ac i gynnwys pwyntiau gweithredu manwl ac uchelgeisiol er mwyn sicrhau gwell profiadau i siaradwyr Cymraeg sy'n byw â dementia.

Fel rydym eisoes wedi ei nodi mae angen i'r strategaeth derfynol ystyried yn ofalus ac adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan gynllun MNG Llywodraeth Cymru a gofynion safonau'r Gymraeg.

Byddem hefyd yn eich atgoffa y dylai'r ystyriaeth i'r effaith ar y Gymraeg barhau wrth i'r strategaeth derfynol gael ei lunio.

## Cwestiwn 15

**Defnyddiwch yr adran hon i rannu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill rydych chi'n meddwl y dylem eu hystyried wrth baratoi'r strategaeth dementia derfynol.**